**Tracey Burke**
Cyfarwyddwr Cyffredinol / Director General

Y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus
Education and Public Services Group

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

28 Ionawr 2021

Annwyl Mr Ramsay,

Ar ôl imi fod yn bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 30 Tachwedd, a chael eich llythyr dilynol dyddiedig 9 Rhagfyr, amgaeaf y wybodaeth ychwanegol y cytunais i'w rhannu a'm hymatebion i'r pwyntiau pellach a godwyd.

Wrth gwrs, byddwn yn fwy na pharod i ddarparu unrhyw wybodaeth neu eglurhad pellach sydd eu hangen ar y Pwyllgor.

Yn gywir,

Tracey Burke

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 0258047
tracey.burke@gov.wales
Gwefan ● website:
www.llyw.cymru.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

## Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus: 30 Tachwedd 2020

## **Camau Gweithredu Dilynol** (Tracey Burke, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus)

---

**Presenoldeb yn yr ysgol –** *Byddem yn croesawu dadansoddiad er mwyn deall y patrwm presenoldeb yn well, yn enwedig p'un a oes unrhyw gydberthynas ag ardaloedd ag amddifadedd.*

Ers dechrau'r flwyddyn academaidd, rydym wedi cyhoeddi gwybodaeth reoli wythnosol am ddisgyblion yn bresennol mewn ysgolion a gynhelir. (Mae'r wybodaeth hon ar gael yn:
https://llyw.cymru/disgyblion-yn-bresennol-mewn-ysgolion-gynhelir)

Gwnaethom ddadansoddi cyfraddau presenoldeb ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr gan ddefnyddio Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC) 2019 fel ein mesur amddifadedd ac mae patrwm clir. Wrth i lefelau amddifadedd godi, mae lefelau presenoldeb yn gostwng. Dewiswyd yr ystod data er mwyn osgoi effeithiau'r cyfnod atal byr a phenderfyniad rhai Awdurdodau Lleol i gau eu hysgolion cyn diwedd y tymor ym mis Rhagfyr.

Byddwn yn parhau i roi cymorth i'r teuluoedd sydd fwyaf agored i niwed a thargedu ein hymdrechion cychwynnol at wneud yn siŵr bod y rhai mwyaf anghenus yn gallu cael gafael ar gymorth pan fo ei angen. Gellir dangos hyn drwy ein penderfyniad i flaenoriaethu cyllid ar gyfer prydau ysgol am ddim, cynyddu'r cyllid ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion - Mynediad a pharhau i ddarparu cyllid y Grant Datblygu Disgyblion i ysgolion.

At hynny, byddwn yn parhau i weithio gydag Awdurdodau Lleol, ysgolion a rhieni, er mwyn annog lefelau uwch o bresenoldeb yn ein hysgolion pan fydd dysgu wyneb yn wyneb i bawb yn dychwelyd. Fodd bynnag, y peth pwysicaf ar hyn o bryd yw sicrhau ein bod yn parhau i gyfathrebu ac ymgysylltu, fel bod ysgolion, lleoliadau, Awdurdodau Lleol a theuluoedd yn deall unrhyw rwystrau sy'n atal dysgwyr rhag dychwelyd i'r ysgol a nodi unrhyw gymorth pellach sydd ei angen.

**Cymorth –** *Y wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith a wnaed i gynorthwyo dysgwyr o'r Gymuned Sipsiwn a Theithwyr.*

Mae'r Fforwm Sipsiwn-Teithwyr a Grŵp Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig Awdurdodau Lleol (MEALA)   yn parhau i drafod yn rheolaidd yr heriau sy'n gysylltiedig â chefnogi dysgwyr sy'n Sipsiwn neu Deithwyr yn ystod y pandemig. Cyfarfu'r rhwydwaith i drafod yr heriau a chyfraddau dychwelyd i'r ysgol ar gyfer y dysgwyr hyn ar 11 Medi 2020. Mae hon yn eitem barhaus ar yr agenda ac fe'i trafodwyd hefyd yn ei gyfarfod diwethaf ar 13 Tachwedd. Mae gwasanaethau Awdurdodau Lleol yn parhau i fonitro'r sefyllfa o ran cymorth addysg i'r dysgwyr hyn ac i ddarparu cymaint o gymorth â phosibl. Maent wedi rhannu arferion gorau â ni a phob rhan o'r rhwydwaith drwy MEALA a'r Fforwm Sipsiwn-Teithwyr. Bydd y grwpiau hyn yn cyfarfod eto ar 29

Ionawr er mwyn trafod yn benodol yr heriau sy'n wynebu dysgwyr sy'n Sipsiwn neu Deithwyr o ran cael mynediad at addysg ac arferion effeithiol i gefnogi eu haddysg.

Ar 8 Medi, ysgrifennais at y Pwyllgor gyda gwybodaeth am y cymorth sydd ar gael i ddysgwyr sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol a mynediad at fand eang ar safleoedd teithwyr. Bryd hynny, roeddem wedi nodi bod gan 19% "fynediad gwael", bod gan 25% ryw fath o fynediad, ei bod yn bosibl bod gan 19% "fynediad da" ac, ar gyfer 37% o leiniau, nad oedd digon o wybodaeth i ddeall a oedd gan breswylwyr fynediad i'r rhyngrwyd na sut y gallent gael mynediad iddo.

Dros yr haf, gwnaethom ysgrifennu at bob Awdurdod Lleol â safleoedd cyhoeddus ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr er mwyn eu hatgoffa bod mynediad i'r rhyngrwyd yn dod yn wasanaeth hanfodol ac i gynnig cyllid o hyd at 100% o'n Grant Cyfalaf Safleoedd ar gyfer prosiectau sydd wedi'u hanelu at oresgyn rhwystrau seilwaith i fynediad i'r rhyngrwyd. Darparwyd rhagor o wybodaeth am y cyllid hwn yn y digwyddiad ymgysylltu ag Awdurdodau Lleol Cymru gyfan yng nghanol mis Medi.

Rydym wedi gweithio'n helaeth gydag Awdurdodau Lleol ledled Cymru er mwyn gwella ein dealltwriaeth o nifer y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau rhyngrwyd a'r rhwystrau i'w defnyddio ar safleoedd. Mae adborth gan Awdurdodau Lleol wedi dangos y gellir dosbarthu rhwystrau i fynediad i'r rhyngrwyd yn rhwystrau seilwaith ffisegol, rhwystrau economaidd-gymdeithasol a rhwystrau sy'n ymwneud ag allgáu digidol. Mae tystiolaeth yn dod i'r amlwg fod sicrhau mynediad at fand eang sefydlog ar yr un sail â'r rhai mewn tai confensiynol yn gam bwysig a bod hynny'n cael ei ffafrio gan rai, er bod rhai preswylwyr ar safleoedd yn wynebu problemau ychwanegol sylweddol sy'n ymwneud â fforddiadwyedd.

Rydym bellach wedi cadarnhau bod band eang llinell sefydlog ar gael i bob safle rhent cymdeithasol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru yn lleol, gyda 13 o safleoedd yn gallu manteisio ar fand eang cyflym iawn yn eu hardal, un safle yn cael cyflymderau cyfartalog ac wyth safle yn cael gwasanaeth band eang araf. Fodd bynnag, ar rai safleoedd, mae angen seilwaith ychwanegol er mwyn sicrhau bod llinellau ar gael i breswylwyr. Rydym yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol i gadarnhau'r safleoedd yr effeithir arnynt.

Mae swyddogion wedi cyfarfod ag wyth Awdurdod Lleol, sydd â chyfanswm o 11 o safleoedd, ers dechrau mis Hydref er mwyn ystyried opsiynau ar gyfer gwella mynediad at fand eang. Mae hyn yn cynrychioli tua 64% o'r lleiniau yng Nghymru. Mae Awdurdodau Lleol yn cymryd camau y cytunwyd arnynt yn unigol ac rydym yn trafod y defnydd a wneir o ddarpariaeth rhyngrwyd yn rheolaidd.

Rydym hefyd yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol i ddatblygu cynllun peilot ar gyfer rhwydweithiau ardal cost isel yn debyg i'r rhai a welir mewn lleoliadau tai cymdeithasol eraill, fel ffordd o fynd i'r afael â rhwystrau economaidd. Rydym wedi nodi dau safle a all fod yn cael rhywfaint o signal drwy lecynnau Wi-Fi BT ac rydym yn ystyried opsiynau ar gyfer darparu talebau i ganiatáu mynediad. Rydym hefyd yn gweithio i ystyried y posibilrwydd o ehangu'r llecynnau Wi-Fi hyn er mwyn sicrhau bod mwy o safleoedd yn derbyn signal.

**Hunanynysu –** *Pryderon am y gwahanol ddulliau y mae ysgolion ledled Cymru yn eu defnyddio o ran y rheolau hunanynysu.*

Gan ddefnyddio profiad y rhai sy'n gweithio gyda lleoliadau addysg megis y Timau Profi Olrhain Diogelu a'r Timau Diogelu Iechyd a myfyrio ar yr adborth a gafwyd gan randdeiliaid allweddol, buom yn gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r tîm Profi Olrhain Diogelu i lunio canllawiau ychwanegol i ysgolion. Nod y canllawiau hyn yw egluro'r camau y gall ysgolion/lleoliadau eu cymryd er mwyn helpu i leihau nifer y disgyblion a'r aelodau o staff y mae angen iddynt hunanynysu yn dilyn achos positif i'r eithaf. Mae hefyd yn rhoi eglurder o ran diben hunanynysu, pwy ddylai hunanynysu a phryd. (Mae'r canllawiau ar gael yn: [https://llyw.cymru/canllawiau-gweithredol-i-ysgolion-lleoliadau-pan-fydd-cyfyngiadau-ar-niferoedd-dysgwyr](https://llyw.cymru/canllawiau-gweithredol-i-ysgolion-lleoliadau-pan-fydd-cyfyngiadau-ar-niferoedd-dysgwyr))

**Dysgu Cyfunol –** *A allwch chi gadw mewn cysylltiad a rhoi gwybod i ni am ganlyniad gwaith y Gweithgor Dysgu Cyfunol pan fydd ar gael, gan gynnwys y gwaith yn ymwneud â mynd i'r afael ag allgáu digidol?*

Rydym yn deall yr her sy'n wynebu dysgwyr, athrawon ac arweinwyr o ganlyniad i bandemig COVID-19 ac yn cydnabod ei bod yn bosibl nad yw ymatebion nac atebion digidol yr un mor addas i rai ag ydynt i eraill.

Mae'r Gweithgor Dysgu Cyfunol yn cynnwys swyddogion o Lywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol a'r Consortia Rhanbarthol ac mae'n gyfrifol am fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â mynediad cyfartal at ddysgu yn ystod cyfnodau o darfu. Mae'r Gweithgor wedi ystyried y ffordd orau o feithrin dealltwriaeth o'r ddarpariaeth dysgu cyfunol bresennol, atebion a chanllawiau, gan gynnwys digidol ac annigidol, o safbwynt canolog, rhanbarthol a lleol. Mae'r Gweithgor hefyd wedi nodi pum her ar lefel system ac rydym bellach yn gwneud trefniadau cenedlaethol ar gyfer ymgysylltu â phob Awdurdod Lleol er mwyn nodi llinell sylfaen genedlaethol ar gyfer y ddarpariaeth bresennol ar lefel ysgolion ac Awdurdodau Lleol.

Mae gan ysgolion yng Nghymru adnoddau sylweddol o hyd i fynd i'r afael ag allgáu digidol drwy raglen Hwb EdTech sy'n darparu mynediad at wasanaethau a seilwaith digidol. Mae mwy na 97,000 o ddyfeisiau defnyddwyr eisoes wedi'u dosbarthu i Awdurdodau Lleol, a disgwylir i'r 35,000 o ddyfeisiau sy'n weddill sydd wedi'u harchebu gyrraedd dros yr wythnosau sydd i ddod.

Ar ddechrau'r pandemig, neilltuodd y Gweinidog Addysg hyd at £3 miliwn (o'r £30 miliwn o gyllid cyfalaf a ddyrannwyd ar gyfer Hwb EdTech yn 2020/21) i roi cymorth penodol ddysgwyr sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol mewn ysgolion a gynhelir lle nad oedd unrhyw ddarpariaeth ar waith gan eu hysgol na'u Hawdurdod Lleol. Gan weithio gyda'u hysgolion, defnyddiodd Awdurdodau Lleol y cyllid i roi dyfeisiau ysgol wedi'u haddasu iddynt ac i ddarparu cysylltedd 4G MiFi lle roedd ei angen. Ar sail y galw a nodwyd gan ysgolion ac Awdurdodau Lleol, mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu 10,848 o ddyfeisiau MiFi a 9,717 o drwyddedau meddalwedd ledled Cymru.

Ers hynny, mae rhai Awdurdodau Lleol wedi nodi bod nifer bach o deuluoedd wedi cysylltu â'u hysgolion er mwyn cael cymorth ychwanegol. Bu swyddogion yn gweithio

gyda phob Awdurdod Lleol i nodi llinell sylfaen genedlaethol ar gyfer lefel y ddarpariaeth ddigidol bresennol i ddysgwyr a staff.

Mae llwyfan Hwb hefyd yn parhau i chwarae rôl hanfodol wrth gefnogi trefniadau i ddarparu addysg yn ystod y cyfnod heriol iawn hwn. Gwelwyd cynnydd sylweddol yn y defnydd o lwyfan Hwb ers i ddysgu o bell ailddechrau y tymor hwn. Ar hyn o bryd, ceir hyd at 50 o fewngofnodiadau yr eiliad i Hwb bob dydd, ar gyfartaledd, sy'n galluogi dysgwyr ac ymarferwyr i ddefnyddio gwasanaethau digidol Hwb gan gynnwys e-bost ac adnoddau dysgu ar-lein. Mae'r llwyfan ei hun yn cofnodi mwy na 337,000 o fewngofnodiadau, sef y lefelau uchaf erioed, gyda mwy na miliwn o ymweliadau â thudalennau bob dydd.

**Rhannu arfer da –** *Byddem yn croesawu rhagor o wybodaeth am yr astudiaethau achos a'r gwaith y mae Estyn wedi'i wneud. Sut mae'n cael ei ddefnyddio i ysgogi gwelliant a pha dystiolaeth sydd ar gael i brofi ei fod yn gwneud gwahaniaeth?*

Buom yn gweithio gydag ysgolion i lansio casgliad newydd restrau chwarae COVID-19 ar Hwb i ddathlu a rhannu arferion dysgu o bell. Mae amrywiaeth o adnoddau wedi'u cyhoeddi sy'n rhoi enghreifftiau o'r ffordd y mae gwahanol ysgolion a lleoliadau wedi ymateb i elfennau allweddol o'r pandemig – o ailagor i ddefnyddio cyllid Recriwtio, Adfer, Codi Safonau. Bydd diweddariadau rheolaidd yn parhau i gael eu hychwanegu at yr adnoddau 'byw' hyn. (Mae'r rhestrau chwarae ar gael yn: https://hwb.gov.wales/dysgu-o-bell/rhannu-ein-profiadau/)

Mae'r daith dysgu proffesiynol wedi'i datblygu er mwyn helpu i arwain ysgolion drwy'r agweddau strwythurol a dysgu proffesiynol ar baratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru. Mae'n helpu ysgolion i ddod o hyd i'w ffordd trwy'r gwahanol fodelau ar gyfer dysgu proffesiynol, ac i gynllunio taith eu hysgol eu hunain. Mae gwaith pellach ar y cam nesaf o'r daith dysgu proffesiynol yn mynd rhagddo a bydd rhagor o restrau chwarae ac adnoddau yn parhau i gael eu hychwanegu at yr Hwb yn y misoedd sydd i ddod. (Mae'r adnoddau ar gael yn: https://hwb.gov.wales/datblygiad-proffesiynol/taith-dysgu-proffesiynol/)

Mae ein prosiect Trafod Addysgeg, Meddwl am Ddysgu yn cynnig gofod digidol i rannu arferion a chydweithio o fewn ac ar draws ein hysgolion er mwyn rhannu addysgeg ac arferion. Mae'n helpu ymarferwyr i ddarganfod beth mae eraill yn ei wneud a beth sy'n llwyddo drwy rannu arferion a chydweithio, yn ogystal â chymryd rhan mewn cyfleoedd dysgu proffesiynol o ran addysgeg a'r cwricwlwm newydd a chymryd rhan yn y sgwrs am addysgeg mewn perthynas â dysgu cyfunol. Yn ystod pandemig COVID-19, mae'r prosiect wedi canolbwyntio ar gynnig cyfleoedd ar gyfer dysgu proffesiynol cydweithredol drwy rannu profiadau o'r 'hyn sy'n gweithio' ac, o bosibl, 'yr hyn nad yw wedi gweithio', a fydd yn fuddiol wrth inni symud y tu hwnt i'r pandemig. (Mae Trafod Addysgeg, Meddwl am Ddysgu ar gael yn: https://hwb.gov.wales/datblygiad-proffesiynol/prosiect-addysgeg-cenedlaethol)

Cyhoeddwyd adroddiad Estyn ar 15 Ionawr a byddwn yn gweithio gydag Estyn a'r rhanbarthau er mwyn sicrhau y caiff y gwersi a ddysgwyd o'r adroddiad hwn eu rhoi ar waith. (Gellir gweld copi o'r adroddiad yn:

https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/cymorth-awdurdodau-lleol-chonsortia-rhanbarthol-i-ysgolion-ac-ucdau-i-ymateb-i)

Rydym hefyd wedi dadansoddi'r Adroddiad Gwersi a Ddysgwyd o raglen Cadw’n Ddiogel, Dal Ati i Ddysgu yn y gwanwyn a byddwn yn defnyddio'r rhain i benderfynu ar y camau nesaf, yn enwedig mewn perthynas â dysgu o bell a gweithredu ysgolion am weddill y flwyddyn ysgol hon.

**Y baich ar ysgolion –** *Dywedoch wrth y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru wedi lleihau’r baich a roddir ar ysgolion yn ystod y pandemig. Rydym yn croesawu’r camau a gymerwyd i leihau’r pwysau ar ysgolion, ond hoffem gael rhagor o fanylion am y newidiadau yr ydych wedi’u cyflwyno, am y penderfyniadau a arweiniodd atynt a pha asesiad a wnaed o ran a ydynt yn gwneud gwahaniaeth. A fydd y rhain yn parhau i fod ar waith yn y byd ar ôl COVID-19?*

Er ein bod yn wynebu cryn dipyn o ansicrwydd ym mhob rhan o'r system Addysg, rydym yn ceisio cefnogi ein dysgwyr yn y ffordd orau posibl. Yn y cyd-destun hwn, rydym yn cydnabod bod y pwysau o ganlyniad i bandemig COVID-19 wedi golygu disgwyliadau cynyddol ar ysgolion a lleoliadau addysgol eraill ac, felly, yn yr ystyr ehangaf posibl, ar y staff sy'n gweithio i gefnogi dysgwyr.

Mewn ymateb, rydym wedi cymryd camau eang eu cwmpas i gyflwyno mwy o hyblygrwydd a llacio gofynion rheoliadol ar y system ysgolion.

Roedd yn amlwg o effaith pandemig COVID-19 na fyddai llawer o'r gofynion statudol arferol a osodir ar ysgolion, o ran cofnodi cyrhaeddiad disgyblion a data presenoldeb, yn rhesymol. Felly, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus gyda rhanddeiliaid er mwyn gweithredu Rheoliadau Llacio Gofynion Trefniadau Adrodd (Cymru) (y Coronafeirws), a ddiddymodd yn barhaol y gofynion o ran gosod targedau i ysgolion ac a laciodd nifer o ofynion adrodd eraill ar ysgolion ar gyfer 2019/20.

Roedd y mwyafrif helaeth o ymatebion o blaid y cynigion ac yn teimlo eu bod yn synhwyrol ac yn deg ac y byddent yn lleihau'r baich gweinyddol ar ysgolion ac yn dileu pwysau. Hysbyswyd ysgolion o'r newidiadau arfaethedig yn gynnar a chyn yr ymgynghoriad a'r broses ddeddfwriaethol. Gwnaed hyn er mwyn rhoi cymaint o rybudd â phosibl i ysgolion. Yn benodol, mae'r newidiadau rheoliadol yn cynnwys y canlynol:

- Diddymu'r gofyniad i ysgolion bennu a chyhoeddi targedau perfformiad ac absenoldeb y cytunir arnynt wedyn gan Awdurdodau Lleol.
- Atal data ar absenoldebau awdurdodedig ac anawdurdodedig yn 2019/20 rhag cael eu cyhoeddi mewn unrhyw brosbectws ysgol.
- Dileu'r gofyniad i adroddiadau blynyddol cyrff llywodraethu gynnwys data perfformiad a data presenoldeb 2019/20.
- Addasu'r gofynion o ran adroddiadau i rieni i sail “ymdrechion rhesymol” ar gyfer blwyddyn ysgol 2019/20, ac eithrio'r gofyniad i ddarparu adroddiad i ddisgybl sy'n gadael yr ysgol.
- Dileu’r dyletswyddau ar gyrff llywodraethu ac Awdurdodau Lleol i ddarparu data, y naill i Awdurdodau Lleol, a’r llall i Weinidogion Cymru, ar ganlyniadau

asesiadau athrawon ac absenoldebau awdurdodedig neu anawdurdodedig ar gyfer y disgyblion sydd wedi'u cofrestru mewn ysgolion yn y flwyddyn ysgol 2019/20.

Cyn bo hir, byddwn yn ymgynghori ar gynigion tebyg i lacio rhai o'r gofynion adrodd hyn ar gyfer 2020/21. Caiff y camau gweithredu cynnar a chlir hyn effaith gadarnhaol ar ysgolion. At hynny, dylai ymatebion i'r ymgynghoriad helpu i ailgadarnhau adborth o ymgynghoriad y flwyddyn ddiwethaf, bod y newidiadau hyn yn cael eu gwerthfawrogi gan randdeiliaid a'u bod yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol drwy leihau biwrocratiaeth a chefnogi hyblygrwydd lle y bo angen mewn ysgolion. Yn ogystal â'r newidiadau rheoliadol uchod, mae ymyriadau eraill a gyflawnwyd hyd yma yn cynnwys:

- Rhoi eglurder cynnar ynglŷn ag ymestyn y cyfnod atal dros dro ar gyfer mesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4 a mesurau perfformiad etifeddol y chweched dosbarth i flwyddyn academaidd 2020/21.
- Atal y broses categoreiddio ysgolion cenedlaethol dros dro.
- Llacio gofynion penodol sy'n ymwneud ag apeliadau derbyn i ysgol.
- Datgymhwyso'r gofynion o ran newid amserau sesiynau ysgolion.
- Addasu'r Cod Trefniadaeth Ysgolion.
- Addasu'r trefniadau ar gyfer cofrestru disgyblion.
- Ymestyn y terfyn amser ar gyfer hysbysu Gweinidogion Cymru am ddyddiadau tymor yr ysgol.
- Darparu diwrnodau cynllunio ychwanegol ar ddechrau tymor yr hydref 2020/21.
- Addasu'r Gofynion o ran y Cwricwlwm ac Asesu i Sail Ymdrechion Rhesymol.

Mae'r ymyriadau hyn wedi cael effaith uniongyrchol drwy leihau'r baich ar ysgolion yn gyffredinol ac wedi rhoi mwy o hyblygrwydd i ysgolion. At hynny, cymerwyd llawer o'r camau hyn yn gynnar. Yn y dyfodol, Byddwn yn parhau i adolygu'r ymyriadau hyn yn rheolaidd ac yn gwneud unrhyw newidiadau sydd eu hangen fel y bo'n briodol.

**Trefniadau arholiadau –** *Nid yw lefel yr ansicrwydd ar gyfer dysgwyr ac athrawon fel ei gilydd yn ddefnyddiol, ac rydym yn pryderu am y straen ychwanegol y mae hyn yn ei achosi. Rydym yn eich annog i ystyried canfyddiadau'r Grŵp ac i unrhyw gyhoeddiadau Gweinidogol dilynol gael eu gwneud cyn gynted â phosibl yn y flwyddyn newydd.*

Fel y nodwyd uchod, rydym yn ymwybodol iawn o'r ansicrwydd a wynebir gan bob rhan o'r system Addysg. Cyhoeddodd y Gweinidog Addysg y dull gweithredu manwl a fyddai'n cael ei fabwysiadu mewn perthynas â chymwysterau ar 16 Rhagfyr, ar ôl cael cynigion polisi gan y Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni a'u derbyn yn llawn. Yn sgil y penderfyniad i newid i ddysgu o bell ar gyfer y rhan fwyaf o ddysgwyr tan 29 Ionawr o leiaf, cyhoeddodd Cymwysterau Cymru y byddai'r cyfnod asesu mewnol yn cael ei ddiddymu ac ailgynullodd y Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni i ddatblygu cynigion a fyddai'n blaenoriaethu llesiant dysgwyr a hyder y cyhoedd yn y sefyllfa newydd hon. Gwnaeth y Gweinidog Addysg gyhoeddiad ar 20 Ionawr, ar sail cyngor y Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni, yn cadarnhau ei bwriad i newid i Raddau a Bennir gan Ganolfannau, yn seiliedig ar dystiolaeth o ddysgu ac wedi'u hategu gan fframwaith asesu a fyddai'n cael ei ddatblygu a'i gyhoeddi gan CBAC,

gan weithio gyda Cymwysterau Cymru, gyda chymorth y Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni.  Mae'r Grŵp bellach yn gweithio ar fanylion posibl am hyn er mwyn rhoi mwy o eglurder a sicrwydd i ddysgwyr, rhieni, athrawon a darlithwyr cyn gynted â phosibl.